



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru  
South Wales  
Fire and Rescue Service

## Gweithredwr Rheoli Brys 999

**A ydych yn chwilio am swydd ystyrion a phwrpasol lle y gallwch helpu rhywun sydd mewn angen? Ymunwch â'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar y Cyd Rheoli Tân**

Mae'r Ganolfan Reoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi galwadau brys a symud adnoddau a rheoli digwyddiadau ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r rôl yn darparu cyfle rhagorol i gefnogi'r cyhoedd a chymunedau drwy ateb a thrin galwadau brys 999 yn broffesiynol, ysgogi teclynnau, swyddogion ac adnoddau arbenigol i gefnogi'r ymateb effeithiol i argyfyngau - nid oes unrhyw ddwy alwad yr un fath ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath drwy ateb a thrin galwadau brys 999 yn broffesiynol, ysgogi teclynnau, swyddogion ac adnoddau arbenigol i gefnogi'r ymateb effeithiol i argyfyngau - nid oes unrhyw ddwy alwad yr un fath ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath.

### Y Swydd

Rydym yn chwilio am Weithredwyr Rheoli ymroddedig a brwdfrydig i weithio fel rhan o'n tîm deinamig i helpu i gefnogi gwasanaeth 999 a gweithio i werthoedd a safonau ymddygiad y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd angen i chi allu delio ag aelodau o'r cyhoedd sydd mewn trallod er mwyn casglu gwybodaeth briodol a manwl. Mae sgiliau bysellfwrdd rhagorol yn hanfodol ar gyfer y swydd hon am y bydd angen i chi gofnodi gwybodaeth gywir yn gyflym, gan deipio o leiaf 35 gair y funud. Mae angen i chi fod yn hynod o broffesiynol ac yn wrandawr da, a bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i sgwrsio'n gwrtais dros y ffôn. Mae'n hanfodol eich bod yn gallu dilyn prosesau a gweithdrefnau ac aros yn dawel o dan bwysau parhaus a gweithio fel rhan o dîm bach.

### Pryd y byddwch yn gweithio?

Mae'r Rheolaeth yn rhedeg 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a bydd **pob** patrwm shifftiau treigl fel arfer yn cynnwys gweithio cyfuniad o shifftiau dydd a nos (yn cynnwys shifftiau ar y penwythnos, adolig a Gwyliau Banc).

***Nodwch: nid yw rôl diffoddwr tân yr ystafell reoli yn darparu llwybr gyrfa i rôl diffoddwr tân amser cyflawn neu ar alwad.***

MAE FFURFLENNI CAIS A PHECYNNAU GWYBODAETH I YMGEISWYR ar gael i'w lawrlwytho heddiw!

**Amserlen yr Aseidiadau**

<b>Dyddiad Cau ar gyfer Ffurflenni Cais</b>	16 Rhagfyr 2022 5pm
<b>Profion Gallu</b>	Yr wythnos sy'n dechrau ar 16 Ionawr 2023
<b>Y Cam Dethol</b>	Yr wythnos sy'n dechrau ar 30 Ionawr 2023
<b>Archwiliadau Meddygol</b>	Fetio ac archwiliadau meddygol, i'w gadarnhau

**Sylwer:**

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff yn Nhîm y Ganolfan Rheoli Tân basio proses fetio Heddlu De Cymru (***Fetio Unigolion Nad Ydynt yn Heddweision (NPPV)***) cyn cael ei benodi. Mae'r lefel fetio hon yn arfer cyffredin ac yn ofyniad ar gyfer unrhyw un sydd â mynediad corfforol neu o bell at adeiladau neu wybodaeth yr heddlu.

Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.

Credwn yng ngwir werth gweithlu amrywiol, ac anogwn geisiadau o bob sector yn y gymuned.